

# Cymdeithas Contractwyr Trydanol

## Manifesto Cymru 2026

**TYFU ECONOMI CYMRU**
**ARWAIN TRYDANEIDDIO**
**MODERNEIDDIO SYSTEMAU DIOGEL A DIBYNADWY**
**MANTEISIO AR GYFLEOEDD I SICRHAU CYNNYDD TECHNEGOL**

www.eca.co.uk

ECA

# Pwy ydym ni

**ECA yw'r brif gymdeithas ar gyfer crefftau trydanol yng Nghymru. Ers sefydlu ym 1901 rydym wedi bod yn arwain newid yn y diwydiant ers 125 o flynyddoedd.**

**7,600**
**o drydanwyr a phrentisiaid yn gweithio yng Nghymru**

**£3.5 Billion**
**Gwerth y diwydiant electrodechnegol i economi Cymru**

**Ym mis Rhagfyr 2015, roedd 13,400 o drydanwyr yn gweithio yng Nghymru. Erbyn heddiw, dim ond 7,600 o drydanwyr a phrentisiaid sy'n gweithio yng Nghymru.**

## Yr hyn sydd ei angen ar y diwydiant trydanol yng Nghymru:

- Mwy o brentisiaid trydan i ddechrau yng Nghymru
- Gwell polisïau ac arferion caffael sy'n cefnogi busnesau bach ac yn gwneud telerau talu teg yn orfodol.
- Gweithlu sy'n gymwys i gyflawni cymhlethdodau a risgiau technolegau modern, clyfar.

## Yr hyn yr ydym yn galw amdano yn y Maniffesto hwn:

- Cefnogaeth i fusnesau bach er mwyn gallu cyflogi mwy o brentisiaid
- Atgyfnerthu'r amgylchedd busnes er mwyn cynyddu trydaneiddio.
- Ymwreiddio diogelwch a chymhwysedd fel egwyddor mewn deddfwriaeth ar gyfer pob safon ym maes trydaneiddio.

ECA




# 1. Cynyddu maint ac ansawdd darpariaeth prentisiaethau

## Y Broblem

Mae Siarter Sgiliau'r ECA yn nodi bod diffyg trydanwyr cymwys digonol yng Nghymru. Mae angen o leiaf 700 o brentisiaid trydanol newydd ar y wlad, er mwyn cynnal maint y gweithlu presennol. **Ar gyfer 2024/25, mae'r ffigyrau diweddaraf sydd ar gael yn dangos mai dim ond 435 o brentisiaid trydanol a ddechreuodd hyfforddi yng Nghymru.**

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:**

**Gytuno** ar strategaeth a chynllun ar y cyd rhwng y diwydiant a'r llywodraeth ar gyfer cynyddu nifer y prentisiaid trydanol sy'n dechrau ac yn cwblhau yng Nghymru.

**Alinio'r** cyllid a ddyrennir ar gyfer darparu prentisiaethau trydanol gyda'r cynllun hwn a chynnal asesiad realistig o'r adnoddau angenrheidiol er mwyn cyflawni'n effeithiol.

**Monitro a gweithredu** i sicrhau'r cyfraddau cynnydd gorau posibl o gymwysterau dosbarth i brentisiaethau.

**Cynnwys** targedau datblygu sgiliau uchelgeisiol mewn cytundebau cyhoeddus.

## Yr Effaith

Nid yw'r gweithlu trydanol medrus yn ddigon mawr ar hyn o bryd i fanteisio ar yr holl gyfleoedd busnes sy'n codi yng Nghymru o ganlyniad i fwy o drydaneiddio a digido.

"Nid yw cyllid ar gyfer prentisiaethau, yn ei ffurf bresennol, yn cyflawni'r hyn sydd ei angen ar frys ar y diwydiant trydanol yng Nghymru. Er bod y bwriad sy'n sylfaen i'r model ariannu'n bositif – sef cefnogi datblygiad sgiliau a chreu piblinell o Drydanwyr cymwys – mae'r realiti'n dra gwahanol. Mae cyflogwyr trydanol yn wynebu mwy a mwy o faich gweinyddol, mynediad anghyson i gyllid, a gofynion hyfforddiant sy'n aml yn methu ag adlewyrchu gofynion technegol y sector."

**Andrew Hutchins, Cadeirydd ECA Pwyllgor Gweithredol De Cymru**

# 2. Gwella prosesau caffael i gefnogi busnesau bach

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:**

**Atgyfnerthu** arferion gorfodi caffael sy'n ystyriol o fusnesau bach a chanolig ac ymrwymiadau talu prydlon.

**Sicrhau** bod pwerau eithrio llym yn cael eu gweithredu ar gyfer perfformiad gwael a hybu adroddiadau tryloyw ar safonau cyflawni contractwyr.

**Cyflymu'r** broses o gyflwyno dulliau arloesol o wneud taliadau digidol er mwyn gwella gwytnwch y gadwyn gyflenwi.

### Y Broblem

Mae cydymffurfiaeth gyda pholisïau caffael yn dameidiog. Mae prynwyr sector cyhoeddus yn aml yn methu'r targed taliad 30 diwrnod, ac mae'r sector preifat yn 'benthyg' arian gan Fusnesau Bach a Chanolig trwy delerau talu gohiriedig.

### Yr Effaith

Mae angen mwy o sicrwydd ar fusnesau y byddant yn derbyn taliadau er mwyn hybu twf ac osgoi datodiad

> "Hyd nes y gellir datrys y mater o gamddefnyddio taliadau cadw, a bod telerau uchafswm taliadau'n cael eu cyflwyno, rydym yn gadael y drws ar agor i arferion sy'n cyfyngu ar dwf trwy ganiatáu i fusnesau mawr fenthyg arian gan fusnesau bach a chanolig trwy oedi taliadau."

**Rob Driscoll – Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Busnes ECA**



# 3. Ymwreiddio diogelwch a chymhwysedd fel egwyddor mewn deddfwriaeth ar gyfer pob safon ym maes trydaneiddio.

## Y Broblem

Mae'r dirwedd reoleiddio ar gyfer adeiladau newydd a phrosiectau ôl-osod yn parhau i fod yn dameidiog ac yn anghyson heb ddigon o orfodi.

## Yr Effaith

Mae diffyg sicrwydd ymysg datblygwyr, ond mae'r effaith ar gwsmeriaid yn fwy difrifol byth.
Yn ogystal â cholli cyfleoedd i arbed costau ac ynni, maent yn colli mynediad i'r trydan diogel a dibynadwy y maent wedi dod i'w ddisgwyl.

'Dim ond trwy ddeall a gosod y dechnoleg gywir ar gyfer adeilad y gellir bodloni'r targedau effeithlonrwydd ynni, arbedion ariannol, ac allyriadau. Gall technoleg anaddas arwain at oblygiadau diogelwch, cynyddu'r defnydd o ynni ac effeithio'n negyddol ar ymddiriedaeth y cwsmer.'

**Jane Dawson – Paennaeth Materion Allanol ECA**

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:**

**Ymwreiddio** diogelwch fel egwyddor ym mhob newid polisi, trwy gydnabod y cymhwysedd sydd ei angen gan y gosodwr trydanol.

**Ei gwneud yn orfodol** i bob cartref newydd fod yn barod o safbwynt trydanol ac yn unol â rheoliadau adeiladu.



# ARWAIN CYNNYDD GYDA'N GILYDD.

Mae ECA yn credu bod cydweithrediad ehangach a dyfnach gyda Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, a'r diwydiant trydan yn hanfodol er mwyn i Gymru fod yn wlad fwy ffyniannus.

**Rydym yn annog pob plaid wleidyddol i fanteisio ar fuddion trydaneiddio, sy'n darparu nifer fawr o swyddi gyda chyflogau da a gyrfaoedd hirdymor, a chynrychioli cynnydd technolegol.**

Trwy fabwysiadu trydaneiddio digidol a chlyfar yn gyflym, mae gan Gymru gyfle i ddenu buddsoddiad byd-eang a sbarduno twf economaidd.

www.eca.co.uk